


Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Park Surgery, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 18 Mehefin 2026

Dyddiad cyhoeddi: 18 Medi 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-315-0

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	Ansawdd Profiad y Claf.....	9
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol.....	12
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	21
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatrwyd yn ystod yr arolygiad	22
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	23
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	24



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Park Surgery, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 18 Mehefin 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd cymheiriaid rheolwyr practis.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o wyth holiadur gan gleifion a chwblhawyd pedwar gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd canfyddiadau'r arolygiad mewn perthynas ag ansawdd profiad y claf yn gadarnhaol. Er mai nifer bach o ymatebion a gafwyd i'r holiadur, roedd adborth gan gleifion yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda bron pob un o'r ymatebwyr yn nodi bod y gwasanaeth yn dda neu'n dda iawn.

Dangosodd y practis ymrwymiad cryf i ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy weithgareddau hybu iechyd a threfniadau gweithio amlddisgyblaethol. Gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn ffordd barchus a chyfeillgar ac roeddent yn barod i helpu. Roedd amgylchedd y practis yn hygyrch i gleifion ag anghenion amrywiol. Fodd bynnag, roedd cyfle i'r practis weithio gyda'r bwrdd iechyd a gwasanaethau wedi'u cyd-leoli i ddatblygu mynediad cymunedol ymhellach ac i sicrhau y gallai cleifion ddod o hyd i'r gwasanaeth perthnasol yn ddidrafferth ar ôl iddynt gyrraedd adeilad y ganolfan iechyd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod cleifion yn ymwybodol bod ystafell ochr wrth ymyl y dderbynfa ar gael er mwyn cael sgysiau preifat ac ailddechrau defnyddio'r system hunangofrestru er mwyn lleihau'r angen i gynnal trafodaethau a allai fod yn sensitif yn y dderbynfa.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yn gweithredu system llywio gofal a brysbennu clinigol effeithiol i sicrhau bod cleifion yn cael gofal yn unol â'u hanghenion clinigol
- Roedd y gwasanaeth yn defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gefnogi prosesau cyfathrebu â chleifion. Roedd y rhain yn cynnwys baneri digidol yng nghofnodion y cleifion i nodi dewis iaith, enw a rhagenw cleifion, yn ogystal â darpariaeth dolen sain, mynediad at staff dwyieithog a gwasanaethau cyfieithu ffurfiol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd cyfarpar diogelwch tân a chynlluniau gweithredu ar waith. Roedd profion offer cludadwy wedi'u cynnal ar eitemau trydanol ac roedd dyfeisiau meddygol wedi'u calibradu i sicrhau eu bod yn parhau'n ddiogel. Roedd y staff yn gallu gofyn am gymorth brys gan aelodau o staff yn eu hardaloedd unigol ac roeddent yn hyderus y byddent yn cael ymateb gan aelodau o dîm y practis neu wasanaethau eraill ar y safle. Roedd polisïau diogelu priodol a phenodiad arweinydd diogelu yn y practis yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r broses i'w dilyn i roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu. Roedd y cofnodion cleifion a welsom yn cynnwys asesiadau clinigol o ansawdd da, prosesau gwneud penderfyniadau priodol a chynlluniau triniaeth a oedd yn cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys cwblhau atgyfeiriadau i gael archwiliadau pellach.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu a diweddarau polisïau a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau er mwyn rhoi'r holl ofynion disgwyledig ar waith
- Atgyfnerthu proses reoli'r oergell glinigol a gwirio cyffuriau a chyfarpar brys yn wythnosol
- Cyflwyno dulliau sicrhau ansawdd mewnol ffurfiol er mwyn mewnbynnu data yng nghofnodion y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y gwasanaeth yn cynnal amgylchedd a oedd yn ymddangos yn lân ac yn daclus ac roedd wedi cwblhau archwiliad atal a rheoli heintiau yn ogystal â gweithredu ar argymhellion
- Roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod pob aelod o'r staff a oedd yn ymwneud â phresgripsiynu meddyginiaeth ac adolygiadau o feddyginiaethau yn cael hyfforddiant priodol a'u goruchwyllo
- Roedd meddyg teulu penodol yn cael ei ddyrannu i gleifion a oedd yn agosáu at ddiwedd eu hoes i oruchwyllo eu gofal.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Ar adeg yr arolygiad, roedd staff y practis yn gobeithio y byddent yn wynebu cyfnod o sefydlogrwydd ar ôl cael pedwar rheolwr practis gwahanol mewn pum mlynedd a symud safle. Roedd yr arweinwyr yn weladwy ac yn benderfynol ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn glir o ran eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau adrodd. Roedd systemau anfon negeseuon a thrafodaethau anffurfiol yn sicrhau bod dulliau cyfathrebu clir ar waith.

Collwyd data o ffeiliau personél y staff oherwydd newid i reolwr y practis. Roedd y wybodaeth a oedd ar gael yn dangos bod disgrifiadau swydd, contractau ac arfarniadau blynyddol wedi cael eu darparu yn y gorffennol. Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chofrestr Hepatitis B y staff yn cael eu casglu eto. Roedd rhaglen sefydlu addas ar waith i sicrhau bod unrhyw gyflogeion newydd a staff locwm a oedd yn gweithio yn y practis yn cael eu cyflwyno i'r amgylchedd a'r gweithdrefnau perthnasol.

Roedd cynllun archwilio systematig ar waith ond roedd angen ei roi ar waith yn llawn o hyd. Roedd prosiectau gwella ansawdd gwasanaethau Clefyd Cronig yn yr Arennau a Chlefyd Cardiofasgwlaidd wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar. Roedd y Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Gwella a'r archwiliadau gwella gwasanaethau wedi cael eu cwblhau'n unol â'r gofynion cytundebol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod arfarniadau blynyddol yn cael eu cwblhau a bod cyfarfodydd a phrosesau cyfathrebu rheolaidd a ffurfiol yn cael eu hailgyflwyno er mwyn cefnogi datblygiad a pherfformiad ymhellach
- Cadarnhau bod yr hyfforddiant craidd yn cynnwys yr holl ofynion disgwylidig yn unol â rolau
- Sicrhau bod prosesau ymdrin â chwynion Gwranddo ar Bobl yn cael eu hymgorffori'n llawn

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr arweinwyr wedi rhoi cynllun adfer ar waith yn dilyn y newidiadau i'r rheolwr a'r achos o golli data er mwyn helpu i adfer sefydlogrwydd sefydliadol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Gan mai nifer bach o ymatebion a gafwyd i holiadur cleifion AGIC, dylid dehongli'r canfyddiadau'n ofalus ac ni ddylid ystyried eu bod yn cynrychioli poblogaeth ehangach cleifion y practis. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod pob un, ond un, o'r cleifion a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wedi nodi bod y gwasanaeth yn 'dda' neu'n 'dda iawn'.

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd

Gwelsom fod gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos yn ardal aros y practis, yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar y wefan. Roedd y wybodaeth yn gyfredol ac yn cwmparu amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys salwch cyffredin, ymgyrchoedd sgrinio a gwasanaethau cymorth lleol.

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i gleifion, gan gynnwys Cynllun Triniaeth Amgen a rhaglenni brechu tymhorol. Roedd gwasanaethau'r practis yn cael eu darparu gan feddygon teulu, cymdeithion meddygol, nyrsys a pharafeddygon. Roedd cynlluniau ar waith hefyd i ehangu ar y tîm amlddisgyblaethol er mwyn helpu i ddarparu gofal iechyd amserol a darbodus ymhellach. Roedd fferyllwyr ac ymarferwyr iechyd seicolegol y clwstwr yn gweithio o'r practis yn rheolaidd, ac roedd staff y practis o'r farn bod hyn yn gadarnhaol o ran gofal cleifion.

Roedd rhannu'r un adeilad â thimau sylfaenol a chymunedol, gan gynnwys nyrsys ardal ac ymwelwyr iechyd, a phartneriaid y trydydd sector ar sail sesiynol, hefyd yn cynnal cysylltiadau proffesiynol agos ac yn sicrhau y gellir cyfeirio cleifion at y tîm gofal cymunedol lleol mewn modd amserol a chydgyssylltiedig. Dywedwyd wrthym fod yr adeilad wedi cael ei ddylunio'n fwriadol i gysylltu cyfleusterau cymunedol presennol a chefnogi mynediad at wasanaethau iechyd. Fodd bynnag, roedd y gweithwyr proffesiynol y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo bod cyfle i'r practis, ar y cyd â'r bwrdd iechyd a gwasanaethau wedi'u cyd-leoli, ddatblygu'r mynediad hwn ymhellach ac i sicrhau y gallai cleifion ddod o hyd i'r gwasanaeth perthnasol yn ddidrafferth ar ôl iddynt gyrraedd adeilad y ganolfan iechyd.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cwrtais a chyfeillgar rhwng y staff a'r cleifion ac roedd y staff yn barod i helpu.

Roedd staff y dderbynfa wedi'u lleoli y tu ôl i bared gwydr er mwyn atal unrhyw un arall rhag clywed eu sgysiau â chleifion yn y dderbynfa neu ar y ffôn. Fodd bynnag, roedd tri ymatebydd a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC yn anghytuno'n gryf y gallant siarad â

staff y dderbynfa heb i neb arall eu clywed. Dywedodd un claf:

‘Dylid sicrhau preifatrwydd yn y dderbynfa. Roedd gen i gywilydd pan ofynnwyd i mi am faterion sensitif yn y dderbynfa wrth i gleifion eraill wrando’.

Ar adeg yr arolygiad, roedd ystafell ochr ar gael er mwyn cynnal sgysiau preifat ond nid oedd y sgrin hunangofrestru er mwyn lleihau'r angen i gynnal sgysiau cofrestru manwl yn y dderbynfa yn gweithio.

Dylai'r practis sicrhau bod cleifion yn ymwybodol bod yr ystafell ochr wrth ymyl y dderbynfa ar gael i gynnal sgysiau preifat a threfnu i'r opsiwn o hunangofrestru gael ei roi ar waith eto.

Roedd modd cloi drysau'r holl ystafelloedd ymgynghori ac roedd gorchuddion ar y ffenestri. Roedd trefniadau addas ar waith er mwyn cynnig hebryngwr i gleifion yn ystod archwiliadau personol. Gwnaethom drafod gosod posteri yn yr ystafelloedd clinigol yn hysbysu cleifion am eu hawl i gael hebryngwr yn ystod archwiliadau yn ychwanegol i'r ardaloedd roeddent eisoes wedi'u harddangos yn y dderbynfa ac ar ddrysau'r ystafelloedd clinigol.

Amserol

Gofal amserol

Roedd system llywio gofal a brysbennu apwyntiadau ar waith gyda'r nod o sicrhau bod cleifion yn cael gofal priodol yn seiliedig ar eu hanghenion clinigol mewn modd amserol.

Roedd y system llywio gofal wedi'i selio ar adnoddau cadarn. Byddai dolenni i wybodaeth am wasanaethau yr oedd cleifion yn cael eu cyfeirio atynt yn cael eu hanfon drwy neges destun er hwylustod. Roedd swyddogion llywio gofal hefyd yn ymwybodol o'r symptomau yr oedd angen ymateb iddynt ar frys a byddent yn cyfeirio cleifion yn unol â hynny. Roedd meddygon teulu ar gael i roi barn glinigol ar lwybrau priodol os oedd swyddogion llywio gofal yn ansicr.

Roedd y cleifion a oedd angen apwyntiad brys yn y practis yn cael eu hannog i ffonio am 8am. Yna, byddai'r system brysbennu clinigol yn penderfynu ai apwyntiad ar yr un diwrnod neu apwyntiad cyffredinol fyddai'n diwallu anghenion y claf orau a byddai'r staff yn cysylltu â'r claf i gynnig apwyntiad yn unol â hynny.

Gallai'r cleifion drefnu apwyntiadau y gellid eu trefnu ymlaen llaw yn ddigidol, yn bersonol neu dros y ffôn. Roedd y practis wedi dechrau anfon dolenni er mwyn i'r cleifion drefnu apwyntiadau mewn clinigau eu hunain, fel ar gyfer brechiadau, a dywedwyd wrthym fod hyn wedi cynyddu nifer y cleifion sy'n manteisio ar fentrau iechyd a nifer y cleifion sy'n mynychu apwyntiadau.

Fodd bynnag, rhannodd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC farn gymysg ynghylch a allent gael apwyntiadau brys neu gyffredinol pan oedd eu hangen arnynt.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Cadarnhaodd y staff y byddent yn diwallu unrhyw anghenion iaith neu gyfathrebu hysbys. Roedd dolen sain ar gael i gleifion â cholled clyw a gellid cwblhau ffurflen er mwyn i gleifion roi cydsyniad i aelodau'r teulu, gofalmwr neu eiriolwyr helpu i drafod eu gofal. Roedd staff y practis yn siarad amrywiaeth o ieithoedd rhyngddynt, a dywedwyd wrthym y gallent helpu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg oedd eu mamiaith. Roedd gwasanaeth Language Line ffurfiol hefyd ar gael ac roedd system gludadwy ar sgrin wedi cael ei harchebu i wella mynediad at gyfieithwyr, gan gynnwys ar gyfer iaith Arwyddion Prydain. Byddai baneri digidol yng nghofnodion y cleifion yn cael eu defnyddio i nodi dewis iaith, enw a rhagenw'r claf er mwyn cefnogi proses gyfathrebu a gofal wedi'i bersonoli.

Dywedwyd wrthym mai nifer bach iawn o siaradwyr Cymraeg a oedd yn yr ardal leol neu a oedd wedi cofrestru â'r practis. Er hyn, roedd dau aelod o'r staff wedi derbyn y cynnig i gwblhau hyfforddiant Cymraeg. Roedd polisi iaith Gymraeg ar waith a byddai taflenni gan sefydliadau gofal iechyd a sefydliadau'r trydydd sector yn cael eu harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg oes oeddent ar gael. Gwnaethom drafod y dylai'r practis arddangos yr arwydd iaith Gwaith er mwyn gwella ei ddarpariaeth o'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ymhellach.

Roedd y cofnodion cleifion a welsom yn dangos bod y wybodaeth glinigol a oedd yn cael ei rhoi i'r cleifion yn diwallu eu hanghenion cyfathrebu. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC yn cytuno bod y clinigydd yn esbonio pethau'n dda iddynt yn ystod apwyntiadau, eu bod yn teimlo ei fod yn gwrando arnynt, a'u bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth am y practis drwy wefan y practis, yn ysgrifenedig, drwy negeseuon testun a gan y staff wrth fynychu apwyntiadau.

Hawliau a chydraddoldeb

Nodwyd gennym fod pob rhan o'r practis yn hygyrch i bobl ag anghenion amrywiol. Roedd hyn yn cynnwys seddi i blant. Roedd mynediad i'r adeilad drwy ddrws awtomataidd. Roedd yr holl drothwyon yn wastad, roedd y lloriau'n ddiogel a'r llwybrau cerdded yn ddigon llydan ar gyfer cadeiriau olwyn neu gymhorthion cerdded eraill. Roedd y practis wedi'i leoli ar y llawr cyntaf gyda grisiau neu lifft i'w gyrraedd. Roedd Polisi Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng ar waith i sicrhau y byddai cleifion ag anghenion ychwanegol yn cael eu cefnogi pe bai tân neu argyfwng arall lle byddai angen iddynt adael yr adeilad.

Gellid trefnu ymweliadau cartref i sicrhau bod y cleifion nad oeddent yn gallu gadael eu cartref i fynd i apwyntiadau'n parhau i gael y gofal sydd ei angen arnynt.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur ac a aeth i'r practis ar gyfer eu hapwyntiad fod yr adeilad yn hygyrch iawn, a bod digon o seddi yn yr ardal aros.

Roedd polisiâu cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith. Roedd polisi anabledd dysgu ac awtistiaeth yn hybu ymwybyddiaeth y staff o'r cynnig safonol ar gyfer archwiliad iechyd blynyddol i gleifion a nodwyd eu bod yn byw gydag anabledd dysgu.

Roedd y polisi trais ac ymddygiad ymosodol yn cynnwys canllawiau ar ddefnyddio baneri digidol yng nghofnodion y cleifion mewn ffordd gymesur i nodi risgiau hysbys a'r broses o ddileu'r baneri hyn pan nad oedd pryderon mwyach.

Gwelsom dystiolaeth bod aelodau o'r tîm wedi cwblhau rhywfaint o hyfforddiant ar egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Roedd nyrs arweiniol y practis hefyd wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol i ddod yn hyrwyddwr y menopos er mwyn rhoi gwybodaeth a chymorth i gleifion sy'n wynebu'r menopos.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd y safle wedi cael ei adeiladu'n bwrpasol, ac roedd yn addas at y diben. Roedd cyfarpar diogelwch tân a chynlluniau gweithredu ar waith. Roedd profion offer cludadwy (PAT) wedi cael eu cynnal ar eitemau trydanol i sicrhau eu bod yn parhau'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd y staff yn gallu gofyn am gymorth brys gan aelodau o staff yn eu hardaloedd unigol ac roeddent yn hyderus y byddent yn cael ymateb gan aelodau o dîm y practis neu wasanaethau eraill ar y safle. Roedd asesiad risg ymweliadau cartref addas ar waith i gefnogi diogelwch ymarferwyr a oedd yn cynnal ymweliadau clinigol yn y gymuned.

Gwelsom gynllun parhad busnes cyfredol. Roedd y cynllun hwn yn cynnwys manylion cyswllt y personél allweddol a'r gwasanaethau i sicrhau y caiff camau gweithredu priodol eu cymryd pe byddai unrhyw beth yn tarfu ar ddarpariaeth y gwasanaeth. Er hyn, gellid ei atgyfnerthu mewn perthynas â risgiau.

Gwelsom fod system addas ar waith i dderbyn a rhannu rhybuddion diogelwch cleifion ag aelodau perthnasol o'r tîm.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd amgylchedd mewnol y practis yn lân yr olwg ac yn daclus. Roedd proses lanhau'r ardaloedd clinigol wedi'i chofnodi'n addas ac roedd taflenni data ar gyfer cynhyrchion glanhau ar gael. Fodd bynnag, gwelsom fod mopiau'n cael eu storio â'u pen i lawr mewn bwcedi a bod angen gosod pennau mop newydd, a oedd eisoes ar gael, ar y mopiau glas a oedd yn cael eu defnyddio yn yr ardaloedd cyffredinol.

Dylai'r practis sicrhau y caiff yr holl fopiau eu storio a'u cadw'n briodol.

Roedd polisi atal a rheoli heintiau ar gael i'r staff. Fodd bynnag, roedd angen ehangu'r

canllawiau a oedd wedi'u cynnwys yn y polisi hwn ar ddihalogi. Nid oedd unrhyw bolisi rheoli gwastraff ar gael yn ystod yr arolygiad. Roedd angen diweddarau'r polisi feirysau a gludir yn y gwaed a'r polisi anaf a achosir gan nodwydd i gynnwys siart lif a manylion yr unigolyn y dylai staff gysylltu ag ef pe bai rhywun yn cael anaf a achosir gan nodwydd neu pe bai unrhyw berygl arall o ran trosglwyddo a dylai'r wybodaeth hon gael ei harddangos yn yr ardaloedd clinigol hefyd.

Dylai'r practis sicrhau'r canlynol:

- **Bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r broses Atal a Rheoli Heintiau yn cynnwys yr holl fanylion gofynnol**
- **Bod siart lif nodwyddau yn cael ei harddangos yn yr ardaloedd clinigol perthnasol.**

Gwelsom fod archwiliad atal a rheoli heintiau wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar a bod y practis wedi gweithredu ar yr argymhellion. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw archwiliad gwastraff clinigol ar gael. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel nes iddo gael ei gasglu.

Dylai'r practis sicrhau bod archwiliad gwastraff clinigol yn cael ei gwblhau.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC o'r farn bod y practis yn 'lân iawn'. Roedd yr holl ymatebion gan gleifion a staff hefyd yn dangos bod mesurau golchi dwylo ac atal a rheoli heintiau yn cael eu rhoi ar waith yn y practis. Roedd cyfarwyddiadau golchi dwylo wedi'u gosod uwchben pob basn golchi dwylo yn yr ardaloedd clinigol a'r toiledau. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd unrhyw hylif diheintio dwylo ar gael i'r cleifion wrth gyrraedd y practis nac yn unrhyw le arall yn y practis, a nododd un claf hyn hefyd.

Dylai'r practis sicrhau bod cyfleusterau diheintio dwylo ar gael i'r staff a'r cleifion yn y practis.

Yn ystod ein harolygiad, cysylltwyd â thîm gwaith ac ystadau'r bwrdd iechyd mewn perthynas â baw adar a oedd wedi cronni y tu allan i fynedfa'r adeilad a datryswyd y mater hwn. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis gadarnhau'r broses ar gyfer monitro a chynnal a chadw y tu allan i'r adeilad gan iddynt ddweud wrthym nad oeddent yn sicr ohoni.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd prosesau ar waith ar gyfer archebu a gwaredu brechiadau a meddyginiaethau eraill.

Roedd tymheredd yr oergell glinigol a'r ystafell lle roedd meddyginiaethau'n cael eu cadw yn cael ei fonitro. Fodd bynnag, gellid gwella'r trefniadau o ran monitro'r oergell:

- Dim ond unwaith y dydd roedd tymereddau'n cael eu gwirio a'u cofnodi
- Nid oedd unrhyw gofnodion papur yn cael eu cadw o'r tymereddau. Byddai

arddangos y rhain ar yr oergell, neu gerllaw, yn atgoffa'r staff i wirio tymereddau pe na bai'r broses yn cael ei chwblhau yn ôl y disgwyl.

- Byddai dyfais cofnodi data yn rhoi sicrwydd ychwanegol mewn perthynas â'r broses o gynnal tymheredd yr oergell y tu allan i oriau, ond nodwyd y byddai amseroedd agor yr adeilad yn cyfyngu ar allu'r practis i ymateb pe bai'r tymheredd yn mynd y tu allan i'r amrediad derbyniol.
- Nid oedd gormod o stoc yn yr oergell. Fodd bynnag, roedd angen symud yr eitemau a oedd wedi'u gosod ar silff uchaf ac isaf yr oergell er mwyn galluogi mwy o lif aer o'r gwyntyll o amgylch yr oergell.
- Roedd y staff yn ymwybodol o'r polisi cadwyn oer a'r camau gweithredu i'w cymryd pe bai'r tymheredd yn mynd y tu allan i'r amrediad derbyniol. Fodd bynnag, byddai arddangos siart lif cadwyn oer ar yr oergell yn cefnogi'r staff yn well pe bai digwyddiad yn codi
- Nid oedd unrhyw oergell wrth gefn ar gael pe bai'r oergell glinigol yn methu.

Dylai'r practis adolygu cadernid a digonolrwydd ei brosesau mewn perthynas â brechiadau a meddyginiaethau a oedd yn cael eu cadw yn yr oergell.

Nodwyd gennym fod dyddiad defnyddio'r holl gyffuriau a oedd yn y practis yn gyfredol. Fodd bynnag, nid oedd yr holl gyfarpar mewn cyflwr addas. Gwelsom nifer mawr o lafnau fflaim, dresinau, poteli gwaed a nodwyddau glöynod byw yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi dod i ben yn ystod ein harolygiad. Gwnaethom godi'r materion hyn gyda'r uwch-aelodau o staff ac mae'r camau a gymerwyd i ddatrys ein pryderon wedi'u nodi yn [Atodiad A](#).

Gwelsom fagiau Ambu ymhlith y cyfarpar nad oeddent yn eu pecynnau ac wedi'u gorchuddio â llwch. Cadarnhaodd dogfennau bod presenoldeb a dyddiadau dod i ben y cyffuriau brys yn cael eu gwirio'n fisol. Fodd bynnag, roedd angen cynnal y gwiriadau hyn ar yr holl gyfarpar brys hefyd a hynny'n wythnosol yn unol â chanllawiau Cyngor Adfywio'r DU. Roedd hysbysiadau wedi'u harddangos ym mhob rhan o'r practis i hysbysu'r staff ble roedd y cyfarpar brys a'r diffibriliwr yn cael eu cadw. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid ailystyried lleoliad y cyfarpar a'r cyffuriau brys i sicrhau bod eitemau'n cael eu cadw mewn ardal sy'n ganolog i'r practis ond nid mewn ystafell glinigol a allai fod wedi'i chloi yn ystod ymgynghoriadau. Dylid eu cadw mewn ardal i staff yn unig neu mewn storfa â sêl ddiogelwch. Gwelsom un silindr ocsigen a dywedwyd wrthym fod ail silindr mewn ystafell arall hefyd i sicrhau bod digon o ocsigen ar gael ar gyfer cleifion pe bai angen. Fodd bynnag, yn unol â Hysbysiad Diogelwch Cleifion 041, roedd hyfforddiant yn ofynnol ar y math penodol o silindrau ocsigen a ddefnyddir yn y practis.

Dylai'r practis atgyfnerthu ei brosesau mewn perthynas â sicrhau bod cyffuriau a chyfarpar brys addas yn parhau i fod ar gael ac yn barod i'w defnyddio drwy wneud y canlynol:

- **Cwblhau a chofnodi gwiriadau'n wythnosol**
- **Sicrhau bod cyflwr a dyddiadau dod i ben yr holl eitemau, gan gynnwys cyfarpar, yn cael eu gwirio, bod eitemau anaddas yn cael eu symud a bod eitemau newydd yn cael eu rhoi yn eu lle cyn gynted â phosibl**
- **Ailystyried trefniadau storio a lleoliad priodol eitemau brys er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n hygyrch ond yn ddiogel**
- **Sicrhau bod aelodau perthnasol o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddefnyddio silindr ocsigen.**

Roedd staff y practis yn ymwybodol o'r cynllun cerdyn melyn ar gyfer adrodd ar adweithiau niweidiol i gyffuriau a dywedwyd wrthym fod ganddynt gysylltiadau da â thimau perthnasol o'r bwrdd iechyd er mwyn rheoli meddyginiaethau. Roedd hyfforddiant, prosesau goruchwyllo ac archwiliadau priodol ar gael i sicrhau bod pob aelod o staff a oedd yn ymwneud â'r broses o adolygu a phresgripsiynu meddyginiaethau yn gweithio'n ddiogel ac yn unol â'i faes ymarfer. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd dau o'r Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion mewn perthynas â brechiadau yn gyfredol a bod angen rhoi'r fersiynau diweddaraf ar waith yn eu lle i sicrhau bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol heblaw ymarferwyr cyffredinol yn cydymffurfio'n llawn â'r gyfraith mewn perthynas â chyflenwi a rhoi meddyginiaethau penodol i grŵp cleifion rhagddiffiniedig.

Dylai'r practis sicrhau y defnyddir y fersiynau diweddaraf o'r holl Gyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion yn y practis.

Gwelsom fod prosesau atgyfnerthu diogeledd presgripsiynau sydd wedi'u paratoi wedi'u rhoi ar waith ar ôl digwyddiad. Roedd padiau a ffurflenni presgripsiwn gwag yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd cofnod yn cael ei gadw i nodi pryd roeddent yn cael eu tynnu o'r storfa i'w defnyddio gan yr ymarferwyr. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid diweddarau'r broses hon er mwyn olrhain papurau presgripsiwn o'r adeg y maent yn cyrraedd y practis a bod y staff yn llofnodi i gadarnhau eu bod wedi'u defnyddio.

Dylai'r practis ystyried ei brosesau ar gyfer olrhain ffurflenni a phadiau presgripsiwn o'r adeg y maent yn cyrraedd y practis hyd at yr adeg y maent yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau diogeledd presgripsiynau ymhellach.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd polisïau diogelu priodol a phenodiad arweinydd diogelu yn y practis yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r broses i'w dilyn i roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu. Roedd llwybrau cyfathrebu hefyd yn sicrhau bod y practis yn ymwybodol o ba mor aml roedd cleifion yn mynychu, neu ddim yn mynychu, apwyntiadau â gwasanaethau eraill ac roeddent yn galluogi dull amlasiantaeth cydgysylltiedig o gefnogi cleifion a nodwyd eu bod yn wynebu risg. Roedd cyfarfodydd diogelu ffurfiol, gyda chofnodion ohonynt, wedi ailddechrau'n ddiweddar, a gwnaethom drafod y dylai'r practis barhau i gynnal y rhain yn rheolaidd i sicrhau parhad o ran diogelwch cleifion.

Gwnaethom edrych ar y ddogfennaeth diogelu yng nghofnodion electronig pum claf a gwelsom ym mhob achos bod baneri digidol a chodau wedi cael eu defnyddio'n briodol i nodi pryderon diogelu a'r adeg roedd y rhain wedi'u datrys. Roedd y practis hefyd yn ymdrechu i gysylltu cofnodion aelodau eraill o'r teulu pan roedd plentyn wedi'i gynnwys ar y gofrestr diogelu.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau meddygol yn y practis yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod dyfeisiau'n parhau'n ddiogel ac yn addas i'w defnyddio. Roedd tystiolaeth bod gwaith calibradu yn cael ei gynnal drwy gcontractwr perthnasol.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod prosesau archwiliadwy ar waith i gefnogi atgyfeiriadau a gohebiaeth amserol yn y practis ac yn allanol gyda darparwyr gofal iechyd eraill, gan gynnwys gwasanaethau gofal eilaidd ac iechyd meddwl.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn adnabod ei gleifion yn dda a bod y dulliau cyfathrebu'n helpu i sicrhau parhad gofal a rhwyd ddiogelwch i gleifion â chyflyrau iechyd newidiol. Roedd meddyg teulu penodol, ochr yn ochr â nyrsys cymunedol, yn cael eu dyrannu i gleifion a oedd yn agosáu at ddiwedd eu hoes i gefnogi parhad gofal, ac roedd hyn yn enghraifft o arfer canmoladwy.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion electronig deg claf ar y system TG ddiogel a gwelsom eu bod yn cynnwys asesiadau clinigol o ansawdd da a bod prosesau gwneud penderfyniadau priodol a chynlluniau triniaeth ar waith, gan gynnwys y broses o gwblhau atgyfeiriadau dilynol ar gyfer ymchwiliadau pellach. Roedd y cleifion yn llofnodi ffurflenni cydsynio a gwelsom dystiolaeth o'r cynnig o hebryngwyr a'r defnydd ohonynt pan fo'n berthnasol hefyd. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y rhestr gryno o broblemau yng nghofnod un claf yn cynnwys yr holl ddiagnosisau arwyddocaol. Nid oedd cofnodion claf arall yn cynnwys gwybodaeth am adwaith niweidiol i gyffuriau yn yr adran berthnasol i sicrhau bod y clinigwyr yn ymwybodol ohono. Roedd aelodau dirprwyedig o'r staff gweinyddol wedi cael hyfforddiant ar gwblhau crynodebau a defnyddio codau. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw system ffurfiol ar waith i sicrhau ansawdd y data a oedd yn cael eu mewnbynnu.

Dylai'r practis ystyried y canfyddiadau a'r dulliau ffurfiol hyn i sicrhau ansawdd y data a gaiff eu mewnbynnu yn barhaus.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymddangos yn ymrwymedig i ofal cleifion. Dywedodd pawb a ymatebodd eu bod o'r farn bod cleifion yn gallu cael gwasanaethau yn y practis mewn modd amserol a bod mesurau ar waith i ddiogelu cyfrinachedd, preifatrwydd ac urddas cleifion.

Cafwyd ymatebion mwy cymysg ynghylch y cymorth a oedd ar gael i staff. Ni nododd pob un o'r pedwar a ymatebodd i'r holiadur nad oedd eu swyddi yn cael effaith andwyol ar eu hiechyd a'u bod yn ymwybodol o sut i gael cymorth llesiant pe bai ei angen arnynt. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn gallu bodloni'r gofynion gwrthgyferbyniol ar eu hamser yn y gwaith, eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am newidiadau sy'n effeithio ar eu gwaith a bod y practis yn dysgu o ddigwyddiadau.

Nododd un aelod o'r staff:

"lle da i weithio ynddo ac rydyn ni'n gweithio fel tîm"

Cyn ein harolygiad, roedd y practis wedi cael pedwar rheolwr gwahanol mewn pum mlynedd ac wedi symud safle yn ystod y 18 mis diwethaf. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gobeithio y byddent bellach yn dechrau cyfnod o sefydlogrwydd. Rydym yn argymhell y dylai'r practis barhau i ymgysylltu â'r staff a cheisio adborth wrth iddo ddechrau cyfnod o sefydlogrwydd.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd cynllun adfer wedi cael ei roi ar waith ar ôl achos o golli data a oedd yn gysylltiedig â'r newid o ran y tîm rheoli ac roedd rheolwr practis newydd yn cael ei gefnogi gan arweinwyr eraill, tîm profiadol o staff a rheolwr ymgynghorol y practis i ymgysylltu â'r rôl. Roedd yr arweinwyr yn weladwy ac yn benderfynol ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn glir o ran eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau adrodd. Roedd systemau anfon negeseuon a thrafodaethau anffurfiol yn sicrhau bod dulliau cyfathrebu clir ar waith. Roedd y staff yn gobeithio y byddai cyfarfodydd ffurfiol yn cael eu hailgyflwyno yn y dyfodol agos er mwyn rhoi cyfle iddynt gael diweddariadau mwy manwl a thrafodaethau myfyriol. Byddai cadw cofnodion neu gofrestr hefyd yn ddefnyddiol i gadarnhau bod y staff wedi cael gwybodaeth allweddol.

Roedd yr holl bolisiâu a gweithdrefnau i gefnogi'r broses o redeg y practis yn effeithiol wedi cael eu llunio yn ystod y pum wythnos diwethaf. Fodd bynnag, roedd angen nodi rhif y fersiwn ar rai polisiâu ac roedd angen eu gwneud yn berthnasol i'r practis i sicrhau bod dogfennau templed yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i ddiwallu anghenion y practis

ac mai dim ond y fersiynau mwyaf cyfredol y byddai'r staff yn eu defnyddio.

Dylai'r practis sicrhau bod polisïau'n ddigon perthnasol i'r practis a bod eu fersiynau'n cael eu rheoli'n glir.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwnaethom adolygu gwybodaeth a chofnodion hyfforddiant y personél nad oeddent wedi mynd ar goll o'r practis.

Roedd gwybodaeth y personél yn dangos bod disgrifiadau swydd, contractau ac arfarniadau blynyddol wedi cael eu darparu yn y gorffennol. Fodd bynnag, roedd bellach angen cynnal arfarniadau ac roedd nifer o'r disgrifiadau swydd a'r contractau yn hen neu wedi'u diweddaru sawl gwaith ac felly angen eu hailgyhoeddi i sicrhau eu bod yn eglur i'r staff a bod rolau'n cyd-fynd â'r cymysgedd sgiliau sydd ei angen yn y practis.

Dylai'r practis sicrhau'r canlynol:

- **Bod yr holl ddisgrifiadau swydd a chontractau'n cael eu hadolygu a'u hailgyhoeddi i sicrhau bod anghenion a disgwyliadau'r staff a'r practis yn cyd-fynd â'i gilydd.**
- **Bod arfarniadau'n parhau i gael eu trefnu a'u cynnal yn flynyddol yn y dyfodol i sicrhau bod y staff yn parhau i gael eu cefnogi i gyflawni a datblygu eu rôl.**

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod gan y staff clinigol sy'n gweithio yn y practis gofrestrriad proffesiynol. Gan fod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar goll, roedd cais wedi'i gyflwyno'n ddiweddar i gynnal gwiriadau newydd ar gyfer yr holl staff clinigol. Roedd y practis wrthi'n casglu tystiolaeth o'r lefelau gwrthgyrff rhag Hepatitis B hefyd. Roedd y polisi recriwtio yn nodi y byddai unrhyw gynigion cyflogaeth newydd yn amodol ar wiriadau cefndir priodol a dywedwyd wrthym fod prosesau ar waith i sicrhau y byddai cofrestrriadau a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu ar gyfer yr holl staff clinigol yn rheolaidd.

Roedd rhaglen sefydlu addas ar waith i sicrhau bod unrhyw gyflogeion newydd a staff locwm a oedd yn gweithio yn y practis yn cael eu cyflwyno i'r amgylchedd a'r gweithdrefnau gweithredol. Roedd hyfedredd i gwblhau gweithgareddau risg uwch hefyd yn ddisgwyliedig drwy hyfforddiant ac asesiadau cymhwysedd a byddai dechreuwyr newydd hefyd yn ymgymryd â chyfnod prawf i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu rôl mewn cyfnod penodol o amser. Roedd trefniadau goruchwyllo clinigol cadarn ac amrywiaeth o bolisïau Adnoddau Dynol yn sail i allu a pherfformiad y staff. Roedd dull rheoli cefnogol, mynediad at wasanaethau iechyd galwedigaethol y bwrdd iechyd a rhaglen frechu rhag y fflw flynyddol i staff yn cefnogi llesiant staff.

Roedd y cofnodion hyfforddiant yn dangos bod ymarferwyr clinigol wedi cwblhau amrywiaeth o hyfforddiant clinigol perthnasol ac roedd y matrices hyfforddiant yn rhoi trosolwg o'r hyfforddiant craidd roedd aelodau'r tîm wedi'i gwblhau. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant adfywio a bod rhai o'r clinigwyr yn hyfforddwyr rhaeadru hefyd. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion a welsom ar gyfer yr hyfforddiant adfywio yn nodi ei fod yn cynnwys hyfforddiant anaffylacsis. Hefyd, gwelsom mai dim ond rhai aelodau o'r staff oedd wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu hyd at y lefel ofynnol ar gyfer eu rôl ac nad oedd yr hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'i gynnwys yn y rhaglen hyfforddiant craidd.

Dylai'r practis gadarnhau bod ei ofynion o ran yr hyfforddiant craidd yn cynnwys hyfforddiant priodol ar anaffylacsis, diogelu a'r Ddyletswydd Gonestrwydd a bod y cyrsiau hyfforddiant a gwblheir yn cydymffurfio'n llawn â'r disgwyliadau.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd y cleifion yn gallu rhoi adborth yn bersonol neu drwy'r arolwg profiad y claf cenedlaethol blynyddol a gallent wneud cwyn ffurfiol i reolwr y practis. Dywedodd staff y practis wrthym ei fod yn well ganddynt ddatrys unrhyw bryderon gan gleifion wrth iddynt eu codi os yn bosibl. Roedd taflenni ar fframwaith pryderon, cwynion ac iawndal GIG Cymru, sef Gwrandio ar Bobl, ar gael i'r cleifion ar safle'r practis. Fodd bynnag, gwelsom fod angen diweddarau'r polisi cwynion sy'n benodol i'r practis a oedd yn cael ei arddangos ar wefan y practis er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r fframwaith Gwrandio ar Bobl a bod angen cynnwys manylion rheolwr y practis presennol fel y person enwebedig sy'n ymdrin â chwynion. Gwnaethom edrych ar y cofnodion ymdrin â chwynion a gwelsom fod angen ymgorffori'r broses Gwrandio ar Bobl hefyd. Dywedwyd wrthym fod cwynion yn cael eu trafod er mwyn i dîm y practis ddysgu gwersi a bod themâu yn cael eu hadolygu'n ffurfiol yn flynyddol. Byddai arddangos gwybodaeth 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' hefyd yn codi proffil dulliau casglu adborth y practis a'r newidiadau a roddwyd ar waith mewn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd..

Dylai'r practis wneud y canlynol:

- **Adolygu a diweddarau polisi cwynion y practis i sicrhau ei fod yn cynnwys gwybodaeth gyfredol ar gyfer cleifion mewn perthynas â gwneud cwynion a'r broses ymdrin â chwynion**
- **Sicrhau bod prosesau sy'n cyd-fynd â Gwrandio ar Bobl (2026) wedi'u hymgorffori**
- **Ystyried dulliau ar gyfer rhannu gwybodaeth â chleifion ynghylch y gwersi y mae'r practis wedi'u dysgu mewn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd. Gallai**

hyn fod drwy fwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn y practis, hysbysiad ar y wefan neu drwy ddulliau eraill.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Gwelsom fod swyddog diogelu data addas wedi'i benodi a bod amrywiaeth o bolisiâu diogelu data a llywodraethu gwybodaeth ar waith i ddiogelu gwybodaeth gyfrinachol. Roedd polisi preifatrwydd y practis ar gael i gleifion i'w hysbysu am y ffordd y caiff data eu prosesu, eu defnyddio a'u storio, a'r hawl sydd ganddynt i ddarllen eu cofnodion cleifion unigol.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod cynllun archwilio systematig ar waith ond roedd angen ei ymgorffori'n llawn o hyd. Roedd prosiectau gwella ansawdd gwasanaethau Clefyd Cronig yn yr Arennau a Chlefyd Cardiofasgwlaidd wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar. Roedd y Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Gwella a'r archwiliadau gwella gwasanaethau wedi cael eu cwblhau'n unol â'r gofynion cytundebol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom nifer mawr o lafnau fflaim, dresinau, poteli gwaed a nodwyddau glöynod byw yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi dod i ben yn ystod ein harolygiad.	Gallai unigolyn gael haint wrth gael gofal iechyd os caiff eitemau y mae'r dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi dod i ben eu defnyddio.	Trafodwyd ein pryder ag uwch-aelodau o staff.	Cafodd yr eitemau eu symud o'r ardaloedd clinigol a'r storfa. Cytunwyd y byddai'r practis yn adolygu'r eitemau a ddefnyddir yn rheolaidd a'r nifer a ddefnyddir i sicrhau bod y nifer priodol yn cael ei ail-archebu.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Park Surgery

Dyddiad yr arolygiad: 18 Mehefin 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau

Ni nodwyd unrhyw faterion lle mae angen sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Park Surgery

Dyddiad yr arolygiad: 18 Mehefin 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Roedd tri ymatebydd a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC yn anghytuno'n gryf y gallant siarad â staff y dderbynfa heb i neb arall eu clywed.	Dylai'r practis sicrhau bod cleifion yn ymwybodol bod yr ystafell ochr wrth ymyl y dderbynfa ar gael i gynnal sgysiau preifat a threfnu i'r opsiwn o hunangofrestru gael ei roi ar waith eto.	Safonau Iechyd a Gofal (2023) – Yn canolbwyntio ar yr unigolyn	Bydd y practis yn hybu argaeledd yr ystafell ymgynghori breifat drwy osod arwyddion clir yn y dderbynfa a bydd y staff yn atgoffa'r cleifion wrth drafod materion cyfrinachol. Bydd y system hunangofrestru yn cael ei hailgyflwyno er mwyn lleihau'r angen i gleifion ddarparu gwybodaeth bersonol ar lafar wrth ddesg y dderbynfa. Rydym wedi atgoffa staff y dderbynfa o'u cyfrifoldeb i gynnig ardal breifat i gynnal	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau ar ôl yr archwiliad, gyda phrosesau monitro parhaus wedi hynny

				trafodaeth lle gallai effeithio ar gyfrinachedd. Caiff cydymffurfiaeth ac adborth gan gleifion eu monitro drwy arolwg cleifion y practis a'r broses cwynion.		
2.	Roedd mopiau'n cael eu storio â'u pen i lawr mewn bwcedi ac roedd angen gosod pennau mop newydd ar y mopiau glas a oedd yn cael eu defnyddio yn yr ardaloedd cyffredinol.	Dylai'r practis sicrhau y caiff yr holl fopiau eu storio a'u cadw'n briodol.	Safonau Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	Mae'r practis wedi adolygu ei drefniadau storio cyfarpar glanhau. Bydd pob mop yn cael ei storio'n briodol i'w alluogi i sychu'n effeithiol ac i leihau'r risg o halogiad. Mae pennau mop newydd wedi cael eu gosod yn lle'r hen bennau ac mae system wedi'i rhoi ar waith i archwilio'r cyfarpar glanhau'n rheolaidd ac i newid eitemau pan fo angen. Rydym wedi atgoffa'r glanhawr o'r gofynion storio a chynnal a chadw cywir ar gyfer cyfarpar	Rheolwr y Practis a Rheolwr y Swyddfa	Wedi'i gwblhau ar ôl yr archwiliad, gyda phrosesau monitro parhaus wedi hynny

				glanhau, a chaiff cydymffurfiaeth ei monitro drwy gynnal gwiriadau atal a rheoli heintiau yn rheolaidd.		
3.	Nid oedd polisi rheoli gwastraff ar gael ac roedd angen diweddaru polisïau a gweithdrefnau eraill a oedd yn berthnasol i brosesau atal a rheoli heintiau i sicrhau bod yr holl fanylion perthnasol wedi'u cynnwys ynddynt.	Dylid rhoi'r holl bolisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r broses Atal a Rheoli Heintiau ar waith a chynnwys yr holl fanylion gofynnol ynddynt: • Rhoi polisi rheoli gwastraff ar waith a sicrhau ei fod ar gael i'r staff • Ehangu ar y canllawiau ar ddihalogi yn y polisi atal a rheoli heintiau • Polisïau feirysau a gludir yn y gwaed ac anaf a achosir gan nodwydd i gynnwys manylion yr unigolyn y dylai staff gysylltu ag ef pe bai rhywun yn cael anaf a achosir gan nodwydd neu	Safonau Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	Mae'r practis wedi cynnal adolygiad o'i bolisïau a'i weithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau. Mae Polisi Rheoli Gwastraff wedi cael ei ddatblygu ac mae ar gael i'r staff. Mae'r polisi atal a rheoli heintiau wrthi'n cael ei ddiweddaru i gynnwys canllawiau estynedig ar y prosesau dihalogi, ac rydym yn adolygu'r polisïau Feirysau a Gludir yn y Gwaed ac Anaf a Achosir gan Nodwydd i ddarparu canllawiau clir ar y trefniadau adrodd, y gweithdrefnau uwchgyfeirio a'r manylion cyswllt priodol yn dilyn digwyddiad lle cafwyd	Rheolwr y Practis	Adolygu a diweddaru polisïau atal a rheoli heintiau erbyn 31 Hydref 2026, a rhoi prosesau adolygu a monitro parhaus ar waith wedi hynny.

		pe bai unrhyw berygl arall o ran trosglwyddo feirysau • Cynnwys siart lif yn y polisi nodwyddau a'i harddangos yn yr ardaloedd clinigol perthnasol.		cysylltiad. Bydd siart lif anaf a achosir gan nodwydd yn cael ei chynnwys yn y polisi a'i harddangos yn yr ardaloedd clinigol perthnasol i gefnogi ymwybyddiaeth y staff ac i'w hannog i gymryd camau gweithredu prydlon. Mae amserlen adolygu polisïau wedi'i rhoi ar waith i sicrhau bod y ddogfennaeth atal a rheoli heintiau yn parhau'n gyfredol a'i bod yn cydymffurfio â chanllawiau perthnasol.		
4.	Nid oedd unrhyw archwiliad gwastraff clinigol ar gael.	Cwblhau archwiliad gwastraff clinigol.	Safonau Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	Mae'r practis wedi adolygu ei drefniadau ar gyfer rheoli gwastraff clinigol ac mae wedi rhoi proses archwilio gwastraff clinigol ar waith i asesu cydymffurfiaeth â'r gofynion gwahanu, storio a gwaredu gwastraff. Bydd canfyddiadau'r	Rheolwr y Practis	Cwblhau'r archwiliad gwastraff clinigol erbyn 31 Hydref 2026, a rhoi prosesau archwilio a monitro parhaus ar waith wedi hynny.

				archwiliad yn cael eu hadolygu drwy broses llywodraethu'r practis, gydag unrhyw gamau gweithredu a nodir yn cael eu rhoi ar waith a'u monitro i gefnogi cydymffurfiaeth barhaus a gwelliant parhaus.		
5.	Nid oedd unrhyw hylif diheintio dwylo ar gael i'r cleifion wrth gyrraedd y practis nac yn unrhyw le arall yn y practis.	Mae cyfleusterau diheintio dwylo ar gael i'r staff a'r cleifion yn amgylchedd y practis.	Safonau Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	Mae poteli hylif diheintio dwylo sy'n gweithredu â phwmp bellach ar gael mewn ardaloedd mwy gweladwy yn ardal y dderbynfa ac mewn lleoliadau priodol eraill ym mhob rhan o'r practis i gefnogi prosesau atal a rheoli heintiau effeithiol. Mae gwiriadau rheolaidd wedi'u cynnwys ar yr amserlen lanhau i sicrhau bod cyflenwadau'n parhau i fod ar gael yn rhwydd i'r staff a'r cleifion.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau ar unwaith, gyda phroses fonitro barhaus ar waith yn wythnosol

6.	Gellid gwella'r broses o reoli'r oergell glinigol.	Dylai'r practis adolygu cadernid a digonolrwydd ei brosesau mewn perthynas â meddyginiaethau a gaiff eu cadw yn yr oergell.	Safonau Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	Mae'r practis wedi adolygu ei weithdrefnau ar gyfer storio a monitro meddyginiaethau a gaiff eu cadw yn yr oergell. Mae prosesau monitro tymheredd yr oergell glinigol wedi cael eu hatgyfnerthu i sicrhau bod tymereddau'n cael eu cofnodi'n gyson a'u hadolygu'n brydlon. Rydym wedi atgoffa'r staff sy'n gyfrifol am reoli brechlynnau a meddyginiaethau o ofynion cadwyn oer y practis, gan gynnwys y broses uwchgyfeirio ar gyfer gwyriadau mewn tymheredd. Caiff archwiliadau rheolaidd o gofnodion tymheredd a chynnwys yr oergell eu cynnal i	Rheolwr a Nyrs Arweiniol y Practis	Adolygu'r weithdrefn a chynnal cyfarfod briffio â'r staff erbyn 30 Medi 2026, gan roi prosesau archwilio a monitro misol parhaus ar waith wedi hynny.

				sicrhau cydymffurfiaeth barhaus ac i wneud yn siŵr bod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel.		
7.	Dim ond bob mis roedd y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu gwirio, ac nid yw hyn yn unol â chanllawiau Cyngor Adfywio'r DU. Roedd angen bagiau Ambu newydd. Roedd angen darparu hyfforddiant penodol ar gyfer silindrau ocsigen. Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r practis ystyried lleoliad a threfniadau storio'r cyffuriau a chyfarpar brys.	Dylai'r practis atgyfnerthu ei brosesau mewn perthynas â sicrhau bod cyffuriau a chyfarpar brys addas yn parhau i fod ar gael ac yn barod i'w defnyddio.	Safonau Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	Mae'r practis wedi adolygu ac atgyfnerthu ei drefniadau er mwyn rheoli cyffuriau a chyfarpar brys. Mae cyffuriau a chyfarpar brys bellach yn cael eu gwirio'n wythnosol, ac mae cofnodion yn cael eu cadw i ddangos cydymffurfiaeth. Rydym wedi cael bagiau Ambu newydd ac mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar silindrau ocsigen. Yn dilyn yr arolygiad, cadarnhaodd y practis fod silindrau ocsigen eisoës ar gael yn Ystafell 9 ac Ystafell 10 a bod yr wybodaeth hon wedi cael ei chyflwyno i AGIC. Mae	Rheolwr y Practis / Nyrs Arweiniol y Practis	Wedi'i gwblhau ar ôl yr arolygiad. Mae gwiriadau wythnosol parhaus a threfniadau monitro archwiliadau rheolaidd ar waith.

				lleoliad a threfniadau storio cyffuriau a chyfarpar brys wedi cael eu hadolygu i sicrhau eu bod ar gael yn hawdd mewn argyfwng. Bydd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau bod y cyfarpar yn gyfredol, yn barod i'w ddefnyddio a bod digon ohono ar gael.		
8.	Nid oedd dau o'r Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion mewn perthynas â brechiadau yn gyfredol.	Dylid sicrhau y defnyddir y fersiynau diweddaraf o'r holl Gyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion yn y practis.	Safonau Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	Aeth y practis ati i adolygu'r holl Gyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion yn syth ar ôl yr arolygiad. Cafodd y fersiynau awdurdodedig cyfredol eu cynnwys yn lle dau o'r Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion, a chynhaliwyd gwiriadau i gadarnhau bod yr holl gyfarwyddiadau a ddefnyddir ym mhob rhan o'r practis yn ddilys ac yn gyfredol.	Nyrs Arweiniol y Practis / Rheolwr y Practis	Wedi'i roi ar waith yn syth ar ôl yr arolygiad, gyda phrosesau monitro ac adolygu dyddiadau dod i ben y Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion ar waith yn barhaus.

				Mae proses wedi'i rhoi ar waith i adolygu dyddiadau dod i ben Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion yn rheolaidd ac i ddiweddarau dogfennaeth yn ôl yr angen i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.		
9.	Gellid olrhain padiau a ffurflenni presgripsiwn yn fwy cadarn o'r adeg y maent yn cyrraedd y practis i'r adeg y maent yn cael eu defnyddio i sicrhau diogeledd presgripsiynau.	Dylai'r practis ystyried ei brosesau ar gyfer olrhain ffurflenni a phadiau presgripsiwn o'r adeg y maent yn cyrraedd y practis.	Safonau Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	Mae'r practis wedi adolygu ac atgyfnerthu ei weithdrefnau ar gyfer rheoli ac olrhain ffurflenni a phadiau presgripsiwn. Mae cofnod canolog wedi'i roi ar waith i gofnodi'r broses o dderbyn, storio, dyrannu a defnyddio adnoddau presgripsiwn, gan ddarparu llwybr archwilio clir o'r adeg y maent yn cyrraedd y practis hyd at yr adeg y cânt eu defnyddio. Mae padiau a ffurflenni presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel, ac	Rheolwr y Practis	Wedi'i roi ar waith ar ôl yr arolygiad, gyda phrosesau monitro ac archwilio cofnodion adnoddau presgripsiwn yn rheolaidd.

				mae gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau bod y stoc yn cael ei chyfrif a bod unrhyw anghysondebau'n cael eu nodi ac yr ymchwilir iddynt yn brydlon.		
10.	Ar y cyfan, ystyriwyd bod cofnodion y cleifion a welsom o ansawdd da. Roedd y broses grynhoi a'r codau wedi'u dirprwyo'n briodol. Fodd bynnag, gwelsom ddwy enghraifft o hepgoriadau yn y data a fewnbynwyd ac nid oedd unrhyw system ffurfiol ar waith i sicrhau ansawdd y data a oedd yn cael eu mewnbynnu.	Dylai'r practis ystyried y canfyddiadau a'r dulliau ffurfiol hyn i sicrhau ansawdd y data a gaiff eu mewnbynnu yn barhaus.	Safonau Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	Mae'r practis wedi adolygu canfyddiadau'r archwiliad ar y cofnodion a thrafodwyd yr hepgoriadau a nodwyd â'r staff perthnasol i atgyfnerthu pwysigrwydd mewnbynnu data cywir a chyflawn. Mae proses sicrhau ansawdd ffurfiol wedi'i rhoi ar waith, gan gynnwys hapwiriadau rheolaidd ac archwiliadau o'r broses grynhoi, y codau a'r trefniadau mewnbynnu data i fonitro cywirdeb a nodi cyfleoedd dysgu.	Rheolwr y Practis / Arweinydd Clinigol	Wedi'i roi ar waith ar ôl yr arolygiad, gydag archwiliadau rheolaidd parhaus a phrosesau monitro sicrwydd ansawdd.

				Bydd canfyddiadau'n cael eu hadolygu drwy ein prosesau llywodraethu i gefnogi gwelliant parhaus a chynnal safonau uchel o ran cadw cofnodion.		
11.	Roedd angen nodi rhif y fersiwn ar rai polisïau ac roedd angen eu gwneud yn berthnasol i'r practis i sicrhau bod dogfennau templed yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i ddiwallu anghenion y practis ac mai dim ond y fersiynau mwyaf cyfredol y byddai'r staff yn eu defnyddio.	Sicrhau bod polisïau'n ddigon perthnasol i'r practis a bod eu fersiynau'n cael eu rheoli'n glir.	Safonau Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	Mae'r practis wedi adolygu ei ffolder polisïau ac wedi diweddarau polisïau i sicrhau eu bod yn berthnasol i'r practis ac yn adlewyrchu prosesau lleol a threfniadau'r practis. Mae dyddiadau fersiynau wedi'u hychwanegu at ddogfennau perthnasol yn glir er mwyn sicrhau y gall y staff nodi'r fersiwn ddiweddaraf yn hawdd. Mae amserlen adolygu dogfennau hefyd wedi'i rhoi ar waith i gefnogi'r gwaith cynnal a chadw parhaus ac i adolygu	Rheolwr y Practis	Rhoddwyd y broses adolygu ar waith ar ôl yr arolygiad a disgwylir iddi gael ei chwblhau erbyn 30 Medi 2026, gyda phroses adolygu polisïau a monitro fersiynau ar waith wedi hynny.

				polisiâu a gweithdrefnau.		
12.	Roedd disgwyl i arfarniadau gael eu trefnu ac roedd nifer o ddisgrifiadau swydd a chontractau'r staff yn hen neu wedi'u diweddarau sawl gwaith ac felly angen eu hailgyhoeddi.	Dylai'r practis sicrhau'r canlynol: - Bod yr holl ddisgrifiadau swydd a chontractau'n cael eu hadolygu a'u hailgyhoeddi i sicrhau bod anghenion a disgwyliadau'r staff a'r practis yn cyd-fynd â'i gilydd - Bod arfarniadau'n parhau i gael eu trefnu a'u cynnal yn flynyddol yn y dyfodol i sicrhau bod y staff yn parhau i gael eu cefnogi i gyflawni a datblygu eu rôl.	Safonau Iechyd a Gofal 2023 – Effeithiol	Yn dilyn cyfnod o newidiadau ymhlith y staff a heriau sefydliadol, mae'r practis wedi dechrau adolygu dogfennaeth gyflogaeth pob aelod o'r staff. Bydd disgrifiadau swydd a chontractau'n cael eu hadolygu, eu diweddarau lle bo angen a'u hailgyhoeddi i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r rolau presennol, y cyfrifoldebau a disgwyliadau'r practis yn gywir. Mae rhaglen arfarniadau staff hefyd wedi'i rhoi ar waith, gydag arfarniadau'n cael eu trefnu a'u cwblhau i gefnogi datblygiad, llesiant a pherfformiad y staff. Bydd system arfarnu blynyddol a phroses adolygu dogfennau yn	Rheolwr y Practis	Adolygu contractau a disgrifiadau swydd erbyn 31 Rhagfyr 2026. Cwblhau a chynnal arfarniadau staff drwy ddilyn rhaglen arfarnu flynyddol barhaus

				cael eu cynnal yn y dyfodol.		
13.	Nid oedd y cofnodion hyfforddiant craidd yn nodi bod yr hyfforddiant adfywio yn cynnwys hyfforddiant anaffylacsis. Dim ond rhai aelodau o'r staff oedd wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu hyd at y lefel ofynnol ar gyfer eu rôl. Nid oedd hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'i gynnwys yn y rhaglen hyfforddiant craidd.	Dylai'r practis gadarnhau bod ei ofynion o ran yr hyfforddiant craidd yn cynnwys hyfforddiant priodol ar anaffylacsis, diogelu a'r Ddyletswydd Gonestrwydd a bod y cyrsiau hyfforddiant a gwblheir yn cydymffurfio'n llawn â'r disgwyliadau.	Safonau Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	Yn dilyn cyfnod o newidiadau ymhlith y staff a heriau sefydliadol, mae'r practis wedi cynnal adolygiad o'i gofnodion hyfforddiant a'r gofynion o ran hyfforddiant craidd. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd rhywfaint o'r dystiolaeth ategol ar gael i ddangos cydymffurfiaeth â'r holl ofynion hyfforddiant. Ers hynny, mae'r practis wedi adolygu ei fatrics hyfforddiant i sicrhau bod hyfforddiant gorfodol yn cyd-fynd â'r gofynion rheoleiddiol a phroffesiynol cyfredol. Mae'r cofnodion hyfforddiant adfywio wedi cael eu hadolygu i gadarnhau bod prosesau rheoli hyfforddiant	Rheolwr y Practis	Adolygwyd y matrices hyfforddiant ar ôl yr arolygiad, a chaiff unrhyw hyfforddiant nad yw wedi'i gwblhau ei gynnal erbyn 31 Rhagfyr 2026 a chaiff cydymffurfiaeth ei monitro'n barhaus wedi hynny.

				anaffylacsis wedi'u cynnwys, mae gofynion hyfforddiant ar ddiogelu wedi'u nodi'n unol â rolau a chyfrifoldebau'r staff, ac mae'r hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'i gynnwys yn y rhaglen hyfforddiant craidd. Mae proses fonitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant wedi'i rhoi ar waith i sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau ac yn cynnal y lefel ofynnol o hyfforddiant, a bod cofnodion hyfforddiant cywir a hygyrch yn cael eu cynnal a'u bod ar gael i'w hadolygu.		
14.	Roedd angen diweddarau polisi cwynion y practis ac roedd angen ymgorffori prosesau Gwrando ar Bobl (2026) yn llawn. Nid oedd unrhyw wybodaeth	Adolygu a diweddarau polisi cwynion y practis i sicrhau ei fod yn cynnwys gwybodaeth gyfredol ar gyfer	Safonau Iechyd a Gofal 2023 – Effeithiol	Mae'r practis wedi adolygu ei bolisi cwynion i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r canllawiau cyfredol ac yn rhoi gwybodaeth glir i gleifion ynghylch sut i godi pryderon a'r	Rheolwr y Practis	Diweddarau'r polisi cwynion a rhoi gohebiaeth 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' ar waith erbyn 30 Medi 2026, gan barhau i'w

	'Dywedoch chi, gwnaethom ni' ar gael i gleifion ychwaith.	cleifion mewn perthynas â gwneud cwynion a'r broses ymdrin â chwynion • Ymgorffori prosesau sy'n cyd-fynd â Gwrandd ar Bobl (2026) • Ystyried dulliau ar gyfer rhannu gwybodaeth â chleifion ynghylch y gwersi y mae'r practis wedi'u dysgu mewn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd.		broses o ymdrin â chwynion. Gan mai dim ond yn ddiweddar iawn y daeth Gwrandd ar Bobl i rym cyn yr arolygiad, mae'r practis wedi adolygu ei brosesau presennol ac mae wrthi'n ymgorffori gofynion y rheoliadau newydd yn ei weithdrefnau cwynion ac adborth gan gleifion. Mae dull 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' wedi'i roi ar waith i ddangos sut mae adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio i lywio gwelliannau i wasanaethau a dysgu gwersi. Bydd adborth gan gleifion, cwynion a'r gwersi a ddysgwyd yn parhau i gael eu hadolygu drwy broses lywodraethu'r practis i gefnogi gwelliant parhaus.		hymgorffori, eu monitro a'u hadolygu yn y dyfodol.
--	--	--	--	--	--	---

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Rachel Hazell

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 17 Awst 2026